Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales
Datblygu Bil Aelod | Development of Member Bill
Y Bil Awtistiaeth (Cymru) - Datblygu'r Bil | The Autism (Wales) Bill - Bill Development
DMB(5) AWB78
Ymateb gan Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
Evidence from Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)

Croesawa UCAC y cyfle hwn i ymateb i ymgynghoriad Paul Davies AC ar Fil Awtistiaeth (Cymru) arfaethedig.

Mae UCAC yn undeb sy'n cynrychioli darlithwyr, athrawon ac arweinwyr ym mhob sector addysg ledled Cymru. Rydym eisoes wedi ymateb ar y cyd ag undeb addysg NEU, ac mae'r ymateb hwn yn ychwanegol ato. Bydd ein hymateb yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc o fewn y system addysg.

### b) A ydych chi'n credu y dylai Cymru gael deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi strategaeth awtistiaeth genedlaethol i blant ac oedolion a rhoi canllawiau i awdurdodau lleol a chyrff y GIG ar weithredu'r strategaeth hon?

### c) I ba raddau o fanylder yn eich barn chi y dylid diffinio cynnwys strategaeth awtistiaeth genedlaethol mewn deddfwriaeth?

Mae rhai o'n haelodau sy'n arbenigo ym maes anghenion dysgu ychwanegol a/neu gyflyrau dwys a chymhleth, yn dadlau o blaid agwedd gynhwysol at bob gwahaniaeth dysgu yn hytrach na chreu deddfwriaeth ar gyfer un cyflwr yn benodol.

Wrth gwrs, mae hynny'n cyfeirio at y drefn o fewn y system addysg, ac nid yw'n ymwneud â'r sefyllfa ehangach mewn perthynas â phobl ar y sbectrwm awtistiaeth, ble allai fod dadleuon gwahanol.

### g) Beth yw eich barn ar ba mor hawdd yw hi i gael mynediad at asesiad diagnostig ble rydych chi'n byw?

### h) Pa heriau allweddol o ran sut mae'r broses ddiagnostig yn gweithio yr hoffech chi i'r ddeddfwriaeth fynd i'r afael â nhw?

Mae'r sefyllfa'n gallu bod yn gymhleth.

O ran plant a phobl ifanc sydd wedi derbyn diagnosis, mae ein haelodau'n adrodd nad oes cysondeb ynghylch p'un ai ydynt yn cael Datganiad neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy (SAPRA), sydd yn ei dro yn golygu lefelau gwahanol o ariannu. I ryw raddau, mae'n bosib y caiff hyn ei ddatrys gan y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) arfaethedig, er y bydd dal i fod cwestiynau ynghylch p'un ai'r ysgol neu'r Awdurdod Lleol fydd yn ysgwyddo'r prif gyfrifoldeb.

Rhaid bod yn ymwybodol yn ogystal, nad yw pob unigolyn sydd ar y sbectrwm awtistiaeth yn gofyn am ddiagnosis, a gall hynny effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael a'r dulliau gweithredu mewn perthynas â'r plentyn/person ifanc.

Mae angen bod yn ymwybodol o'r anawsterau o ran cael darpariaeth arbenigol, gan gynnwys asesiadau diagnostig, trwy gyfrwng y Gymraeg. Petai'r Bil hwn yn symud ymlaen, byddem yn pwyso am gynnwys cymalau fyddai'n sicrhau'r fath ddarpariaeth.

### n) A oes gennych farn ar gwmpas ac effeithiolrwydd hyfforddiant yng Nghymru ar hyn o bryd ar gyfer staff allweddol sy'n gweithio gyda phobl sydd â chyflyrau ar y sbectrwm awtistiaeth?

Rydym wedi derbyn rhywfaint o wybodaeth anecdotaidd gan aelodau fod gwasanaethau awtistiaeth wedi gwella yn ystod y blynyddoedd o ran hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth. Un enghraifft yw'r rhaglen hyfforddiant at gyfer cael pencampwyr awtistiaeth ym mhob ysgol.

### l) A ydych yn credu y dylid gosod gofyniad ar fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol i sefydlu a chynnal arferion casglu data o ran niferoedd ac anghenion y plant ac oedolion sydd â chyflyrau ar y sbectrwm awtistiaeth fel y gall ardaloedd lleol gynllunio gwasanaethau yn unol â hynny?

### m) A oes gennych farn ar sut y gellir casglu data yn fwyaf effeithiol ar niferoedd ac anghenion y plant ac oedolion sydd â chyflyrau ar y sbectrwm awtistiaeth mewn gwahanol ardaloedd byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol yng Nghymru?

Unwaith eto, rhaid bod yn ymwybodol mai dim ond pobl â diagnosis fyddai'n cael eu cynnwys mewn ymarfer casglu data o'r fath.